# KILSBY

## DEREC LLWYD MORGAN a gŵr dyrys oes ddryslyd

YR YDYM yn dathlu eleni ganmlwyddiant marw Kilsby Jones. "Pwy?" meddech. Kilsby Jones, meddaf eilwaith. "Efe," meddai'r Parchedig Ddr Gomer Lewis yn 1896, "ydyw yr enw mwyaf adnabyddus yng Nghymru." Nid oedd Lloyd George nac Owen Edwards na John Morris-Jones wedi gwneud eu henw eto; ond yr oedd Kilsby eisoes ymhlith y mawrion.

Arno ef, a ddaethai i gartrefu yn Llanwrtyd, y syrthiasai deuparth ysbryd cewri Sir Frycheiniog, ysbryd Brychan ei hun, ysbryd Dafydd Gam, ysbryd John Penry, ysbryd Thomas Coke, ysbryd Howell Harris, et cetera. Ys dywedodd ei gofiannydd, Vyrnwy Morgan, "Tra phery'r Banau, fe erys enw Kilsby ar dafod ac yng nghalon y wlad fel pregethwr, darlithiwr, gwleidyddwr, gwron, a llenor o'r radd flaenaf."

Â'r Bannau yn ifanc o hyd, aeth y gwron, druan, fwy neu lai'n angof. Yn ei ddydd, yr oedd hyd yn oed ei wedd yn enwog. "Y fath bersonoliaeth ardderchog, tal, a chydnerth!" ebe Watcyn Wyn wrth ddwyn i gof y tro cyntaf y'i gwelodd.

Fel llawer o bobl olygus, ymfalchïai yn ei harddwch.

76 oedd ef yn marw. Fe'i ganed ar y 4ydd o Chwefror, 1813, heb fod nepell o Bantycelyn. Daeth ei dad, Rhys Jones, yn y man yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Ffaldybrenin ac Esgairdawe; ond mae achos i gredu taw plentyn ei fam oedd James (canys felly y'i bedyddiwyd — enw "pulpudol" oedd Kilsby).

Yr oedd hi bedair blynedd ar ddeg yn hŷn na'i gŵr, a thros ei chwech a deugain yn bwrw esgor. Bu farw pan oedd James yn un ar bymtheg.

* * *

Y MAE'N bosibl fod ei marw hi wedi effeithio ar y llanc mewn dwy ffordd ar unwaith. Ei wneud yn annibynnol, a'i wneud yn ddi-hid o gonfensiwn. Yn ei achos ef, fel yn achos llawer, nid oedd cael gwraig newydd ar aelwyd ei dad o ddim help i'w angori.

Rhyw grwydro y bu wedyn. Aeth i Ysgol Baratoawl enwog y Dr Phillips, Neuaddlwyd, Aberaeron, am sbel. Oddi yno aeth i Goleg Blackburn. Fe ddywedir na welodd Phillips ddim rhagoriaeth ynddo tan yn hwyr, ond yn Blackburn cafodd "y fraint a'r anrhydedd o roddi cynhorthwy llenyddol i'w athraw," sef y Dr Lindsay Alexander o Gaeredin.

Ond er ei fri, cwympo a ddarfu. Yn ôl yr hanes — ac y mae'n ddigon tebyg taw fe'i hunan oedd biau'r hanes — cafodd ei ddiarddel o'r coleg am ddynwared Mrs Alexander!

Ta beth, yr oedd yn anodd ganddo ddychwelyd i Ffaldybrenin. Treuliodd beth amser gyda pherthnasau iddo yn Nhroedrhiwdalar — tan yr agorodd drws Athrofa'r Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin iddo.

Mae'r dyddiadau'n cymysgu peth yrwan: deil J. Dyfnallt Owen yn y *Bywgraffiadur* i'n gwrthrych wasanaethu fel gweinidog yn Frampton-on-Severn rhwng 1835 a 1939, ond deil hefyd ei fod yn fyfyriwr yng Nghaerfyrddin, 1835-8.

Ni sonia Vyrnwy Morgan yr un gair am Frampton. "Gorphenodd ei amser yng Nghaerfyrddin," ebr ef, "ac yn fuan iawn ar ol hyny derbyniodd alwad oddiwrth y Saeson yn 'Kilsby,' swydd Northampton, yn agos i Rugby." Dechreuodd weinidogaethu yno yn 1840.

Fe welir mai enw'r pentref hwn a gymerodd i'w wahaniaethu oddi wrth y llu James Joneses eraill oedd yng Nghymru. Ac y mae hynny'n addas ddigon, oblegid tipyn o Saisgarwr oedd Kilsby. Yn wir, yr oedd yn un o *Saesneg-garwyr* mwyaf yr oes (dweud go fawr).

Meistrolodd Saesneg yn rhagorol, meddai llawer o'i gydnabod, gan ei siarad a'i hysgrifennu yn y modd mwyaf llithrig a chlasurol. Traethodd lawer ar ei rhagoroldeb; anogai Gymry ifainc i'w dysgu am mai hi oedd "iaith haen eidion a photen eiryn"; ac un o'i draethodau eisteddfodol enwocaf oedd hwnnw am "Y Fantais a Ddeillia i'r Cymro o feddu gwybodaeth ymarferol o'r iaith Saesonaeg."

Mae'n anodd gweld sut y gellir ei feio am hyn. Oes felly oedd hi yng Nghymru. Ond y mae Saesneg-garwch Kilsby yn mynd law yn llaw â'i arian-garwch ac â'i faterolde b.

Un o'i ddarlithoedd enwocaf oedd honno ar "Nerth a Dylanwad Arian," a pheidied neb â mynd at hon gan ddisgwyl ynddi draethu ar gamelod a chreiau nodwyddau. Y bol a'r cefn, meddai ynddi, yw "gefaill-frenhinoedd y ddaear," a'r peth gorau y gall pobl dda ei geisio gan gyfoethogion yw eu bod yn gwario'u harian "yn *ddoeth* a *defnyddiol*."

* * *

GYDA GOLWG ar grynhoi arian, yr oedd yn bwysig priodi'n ddoeth a defnyddiol hefyd. Priododd ef â dynes ieuanc o deulu mor "anrhydeddus" fel na lwyddodd ei gofiannydd i roi inni beth mor gomon â'i henw bedydd, — rhyw Miss Chilcott o Leominster.

Ond *fe* ddywed y cofiannydd yn ddiflewyn-ar-dafod nad oedd y wraig yn "ymgeledd gymhwys" i Kilsby yn y cylch eglwysig, am ei bod yn cadw draw oddi wrth y praidd, yn herwydd ei snobri yn hytrach na'i swildod efallai.

Hi sy'n cael y bai am y mab a fagasant, enghraifft arall o'r teip enwog Mab y Mans (teip y mae'n hen bryd inni gael astudiaeth hanesyddol a seicolegol lawn ohono: dechrau gyda Nathaniel Rowland a diweddu gyda . . . . . )

Wrth gwrs, ni fynnai ddifodi'r iaith Gymraeg. Ond wrth honni y dylid ei chadw — "pe bai dim ond er mwyn canu emynau Williams, Pantycelyn, ac i wrando y fath bregethau a geid gan John Jones, Llanllyfni, (Talysarn) neu er mwyn clywed unrhyw fardd naturiol Cymraeg yn adrodd barddoniaeth — y mae'n glep yn rhengoedd yr anghymwynaswyr hynny a'i gwnaeth yn iaith yr enaid yn hytrach na'r corff-a'r-enaid ynghyd.

Gyda'r Saeson y treuliodd ei weinidogaeth bron i gyd, yn Lloegr ac yng nghyffiniau Rhaeadr Gwy a Llandrindod yng Nghymru. O Kilsby aeth i Brimingham a Bolton, cyfnod wedyn ym Maesyfed, yna i Lundain, yna'n ôl i Faesyfed.

Yr hyn a'i denai yn ôl i Gymru o'r pumdegau cynnar ymlaen oedd y tŷ helaeth a godasai yn Nyffryn Irfon ger y fan lle lladdwyd Llywelyn ein Llyw Olaf.

* * *

AC ODDI yno, drwy'r chwarter canrif rhwng 1865 a'i farw, y crwydrodd i areithio a phregethu a darlithio, a dod, drwy'i waith ac yn ei berson, yn un o enwogion mawr ei gyfnod.

Yno, y mae'n debyg, y golygodd *Holl Weithiau Prydyddawl a Rhyddieithol y diweddar Barch. William Williams. Pant-y-celyn* (d.d.), gwaith llafurfawr pwysig, ond gwaith y mae twtsh o sentiment wrtho yntau hefyd; yn y rhagymadrodd dywed Kilsby iddo gael ei eni ger gartref Williams, a bod ei dad yn gorwedd yn y tir a roddwyd i gapel Pentre-ty-gwyn gan Dorothea, mam Williams. Y gwaith hwn yw ei waith enwocaf ac arhosol.

Bu'n gyfrifol am bethau eraill yn ogystal, erthyglau yn *Y Traethodydd* a'r *Geninen*, pregethau yn yr *Homilist*; cyhoeddodd lyfryn o'r enw *Cymhorth i Gymro* yn cynnwys cyfarwyddiadau i Gymry feistroli'r Saesneg; cyfieithodd gofiant D.S. Jones i Williams o'r Wern i'r Saesneg a golygodd gyfieithiad Cymraeg o Bererin Bunyan.

Eithr nid am ei ddawn yn unig y'i mawrygid yn ei ddydd, ond am ei ymddygiad hefyd. Dyn hardd, ie, a dyn hynod. Hynod am ei hoffter o'r ddiod gadarn pan oedd eraill yn y pulpud yn prysur hyrwyddo llwyrymwrthod; a hynod am ei hiwmor.

Mae stori amdano'n cael cinio un diwrnod gyda rheithor Crughywel, yr hwn, ar ôl estyn rhagor o samwn iddo, a ofynnodd, "Will you have another glass?" Atebodd Kilsby yn foesgar, "Thank you, a salmon ought to swim."

* * *

YR OEDD yn hynod hefyd oherwydd ei wisg. Gwisgai "mor anghlerigol ag oedd yn bosibl," ys dywed Vyrnwy Morgan, mewn dillad golau, lliwgar — rhywbeth a'i gwnâi'n annerbyniol iawn gan grefyddwyr syber ei oes. Eithr ni phoenai ef am hynny.

Casâi ddiaconiaid â chas pur. Yng nghapel Tonbridge, Llundain, fel yn y capel newydd yn Llandrindod (a alwodd yn Christ Church), gwnaeth ei orau glas i fyw heb wasanaeth yr un diacon. Yn Llandrindod ef a bregethai ac a gyfrifai'r casgliad.

Yr oedd yn hynod hefyd am ei frathiadau tafodaidd. Gallai lorio a lladd gyda'r hyn y mae Watcyn Wyn yn ei alw'n "ddirmyg Kilsbiaidd."

Unwaith yr oedd yn teithio yn y trên o Landrindod i Lanwrtyd, a phan oedd y trên yn nesáu at Langamarch dyma un o'r teithwyr yn dweud wrth Kilsby, "Yma yr oedd Mr. D... yn byw, onide?" "Ie, siwr," atebodd. "Ac yma y bu farw hefyd, onide?" "Ie, siwr," atebodd eilwaith, gan ychwanegu, "a dyna'r peth gorau a wnaeth erioed."

Y ffraethineb llym hwn oedd un o'r doniau a'i gwnaeth yn siaradwr mor huawdl ar lwyfan y Rhyddfrydwyr yn Sir Frycheiniog hefyd — ond 'awn ni ddim ar ôl ei gyfraniad fel ymgyrchydd yn awr. Dywedwyd digon i ddangos ei fod yn ddyn y mae'n dda i ni ei gofio. Os mynnwch fynd at ei fedd, ewch i fynwent Llanwrtyd, lle codwyd cofgolofn iddo.